# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2016

Amser: 09.00 - 10.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3677

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Gareth Bennett AC<br>John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Siân Gwenllian AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru<br>Amelia John, Llywodraeth Cymru<br>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Staff y Pwyllgor: | Sarah Beasley (Clerc)<br>Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Janet Finch-Saunders AC, Joyce Watson AC a Bethan Jenkins AC.

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol - trafod blaenoriaethau cynnar

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
- Amelia John, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Dyfodol Tecach, Llywodraeth Cymru
- Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 4 Trafod tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

## 5 Y flaenraglen waith - trafod busnes cynnar

5.1 Cafodd y Pwyllgor drafodaeth am fusnes cynnar ac ystyriodd flaenraglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr hydref.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant i gyfarfod ar ddechrau tymor yr hydref i drafod ei flaenoriaethau o fewn ei bortffolio. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i wahodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i sesiwn graffu i drafod rôl a blaenoriaethau Tasglu'r Cymoedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

5.3 I ddechrau ei raglen waith, cytunodd y Pwyllgor i ymgymryd â darn o waith craffu ar ôl deddfu ar weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, a gaiff ei gynnal yn ystod tymor yr hydref.

5.4 I helpu i lywio rhaglen waith tymor hwy y Pwyllgor, cytunodd i ysgrifennu at randdeiliaid dros yr haf i ofyn am eu barn ar y blaenoriaethau, a'r posibiliadau ar gyfer cynnal ymchwiliadau yn y dyfodol.

## Trawsgrifiad